TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC  Diploma Cyntaf mewn Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol Lefel 2



**Yn gryno**

Bydd gennych gyfle i ennill gwybodaeth eang, ynghyd â deall a datblygu sgiliau yn y sector technoleg gwybodaeth a rhai agweddau ar y sector diwydiannau creadigol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... ydych eisiau dilyn gyrfa mewn TG

... ydych eisiau datblygu ystod o sgiliau a thechnegau, sgiliau personol a phriodoleddau a fydd yn hanfodol i lwyddiant yn eich bywyd gwaith

... oes gennych ddiddordeb ysol mewn cyfrifiadura a thechnoleg gwybodaeth

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth o unedau, yn cynnwys:

Y byd ar-lein (arholiad)
Systemau technoleg (arholiad)
Portffolio digidol
Creu animeiddiad digidol
Creu graffeg ddigidol
Datblygu cronfa ddata
Rhwydweithiau cyfrifiadurol
Datblygu meddalwedd
Datblygu cynnyrch amlgyfrwng
Meddwl yn gyfrifiadol
Cyfrifiadura yn y gweithle

Asesir y cwrs hwn drwy arholiadau yn ogystal ag aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig. Ar y diwedd, byddwch yn cyflawni:

Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol Lefel 2
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch, yn cynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol mewn maes galwedigaethol perthnasol, yn cynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Rhaid ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Mae parchu eraill, brwdfrydedd ynglyn â'r pwnc a hunangymhelliant yn nodweddion hanfodol a ddisgwyliwn gan bob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus a disgwylir ichi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Swydd yn y sector TG neu astudiaeth bellach fel Diploma Lefel 3 neu Ddiploma Estynedig mewn TG.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gall costau ychwanegol gynnwys £25 ar gyfer Teithiau Addysgiadol a £10 ar gyfer ffeiliau/deunydd ysgrifennu/cof bach.